

Pris: 50c

Papur Pawb

Mawrth 2013 Rhif 387



tud 3
Pobl a Phethe

tud 4/5/8 a 9
Ysgolion

tud 11
Y Gair Olaf

tud 12
Chwaraeon

Pryder am ganolfan bwmpio carthion Tal-y-bont

Mae consyrn cynyddol ymysg pobl sy'n byw yng nghyffiniau Pantycalh, James Street a gwaelod Tal-y-bont ynglŷn â chyflwr y ganolfan bwmpio carthffosiaeth.

Ychydig wedi i'r Leri ar Ceulan orlifo'u glannau nôl ym mis Mehefin 2012, holltodd y bibell sy'n cario carthion o'r ganolfan bwmpio i fyny at y ganolfan drin carthion ym mhen uchaf cae'r sioe.

Y gred yw fod pridd a gwaddod a olchwyd lawr y ddwy afon yn ystod y llifogydd wedi mynd i mewn i'r system garthffosiaeth, blocio'r bibell a rhwystro'r pypiau rhag gwneud eu gwaith.

Er mwyn cywiro'r hollt bu rhaid tyllu'r ffordd sy'n arwain at y ganolfan bwmpio, a dymchwel rhan o sied a chlawdd Awelon, cartref Barry a Denise Morgan.

A thra bod y gwaith yn mynd rhagddo bu rhaid i breswylwyr yr ardal oddef drawdod a sŵn parhaol wrth i'r carthion gael eu cario oddi yno mewn lorïau mawr.

Ac nid dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd gan i'r bibell hollti mwy neu lai yn yr un man ychydig flynyddoedd yn ôl.

Yn ôl y sôn mae Dŵr Cymru wedi gosod pwmp newydd yno'n ddiweddar, ond mae'r consyrn am allu'r ganolfan i ddygymod â charthion y pentref yn parhau, ac yn arbennig os bydd llawer mwy o dai yn cael eu hadeiladu yma.

Ar gwir yw bod cwestiwn ynglŷn â gallu'r ganolfan i

ddygymod â charthion presennol y pentref, gan fod llawer o dai wedi eu hadeiladu yma ers ei hgor ym 1963.

A daeth y consyrn hwn i'r amlwg unwaith eto, yn dilyn glaw trwm ddiwrnodau'n unig cyn y Nadolig.

Unwaith eto cododd y Leri ar Ceulan yn frawychus o uchel ac roedd y dŵr o fewn dwy neu dair centimetr i orlifo i dri thi o leiaf.

Cymaint y glaw fel bod dŵr a charthion wedi cael eu gwthio i fyny



Cywiro'r bibell yn ystod haf 2012



Barry Morgan (chwith) a Steve Taylor, dau sy'n byw o fewn tafliaid carreg i'r ganolfan bwmpio carthion

draens allanol tai cyfagos, gan gynnwys gardd Pandi, cartref Bill a Barbara Gardner, a ger cartref Chris a Les Barnett, Hafan sydd islaw pont y briffordd.

Wrth reswm, mae goblygiadau iechyd yn ogystal ag ymarferol i hyn.

Mae Papur Pawb wedi anfon cyfres o gwestiynau at Dŵr Cymru er mwyn cael gwybod mwy am eu cynlluniau ar gyfer y ganolfan, ond ni chafwyd unrhyw atebion hyd yma.

Byddwn yn parhau i bwysu am atebion ac yn gobeithio adrodd am hyn yn y rhifyn nesaf.

Yn y cyfamser mae Dŵr Cymru wedi cyhoeddi y byddant yn buddsoddi £200 miliwn er mwyn gwella ac ehangu gweithfeydd trin dŵr ledled Cymru.

Fel rhan o'r rhaglen hon, bydd £7.5 miliwn yn cael ei wario yn Bont-goch.

Bydd y gwaith yn cynnwys codi adeilad trin dŵr ychwanegol ar dir sy'n gyfagos â gwaelod y safle presennol.

Cynhaliwyd arddangosfa yn egluro'r cynllun yn Eglwys St Pedr ar 7 Mawrth a bydd y gwaith yn dechrau yn ystod Haf 2013.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 832429 (01654) 781260 (01654) 781312
Eglwysfach/Ffwrnais:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones Enid Gruffudd; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones	832093 832760 832433 832093 832448 (01654) 781312
Cadeirydd:		
Is-gadeirydd:		
Ysgrifennydd:		
Trysorydd:		
Tanysgrifiadau:		
Hysbysebion:		
Plygu'r Papur:		
Dosbarthwyr:		

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth Llywodraeth Cymru

Llythyr

Annwyl Olygydd,

Mae Cymdeithas Hanes Blaenpennal yn lansio cyfrol ddwyieithog am hanes ardal y Mynydd Bach, Ceredigion (sef rhannau o bentrefi Blaenpennal, Blaenafon, Trefenter, Bronnant, Lledrod, Llangwryfon, Pen-uwch a Bethania) ar 26 Medi. Bydd y llyfr yn cynnwys nifer o hen luniau o'r ardal hon hefyd.

Rydym yn cyhoeddi llyfr clawr meddal a chlawn caled ac yr ydym yn gwahodd tanysgrifwyr i'r gyfrol clawn caled, sy'n £25. Os hoffech gael eich rhestru fel tanysgrifwyr yng nghefn y llyfr, a fydddech gystal â danfon eich manylion llawn (enw, cyfeiriad a ffôn/ebost) a siec am £25 yn daladwy i Cymdeithas Hanes Blaenpennal i: A Findon, Cymdeithas Hanes Blaenpennal, Y Felin, Blaenpennal, Aberystwyth, SY23 4TP erbyn 31 Mawrth.

Bydd copiâu ar gael i'w casglu yn y lansiad ym Mlaenpennal ar 26 Medi. Os nad ydych yn medru bod yn bresennol y noson honno, a wnewch chi ychwanegu £5 arall i'r siec ar gyfer pacio a phostio. Diolch yn fawr.

Yn gywir,

Cymdeithas Hanes Blaenpennal

Eirian Jones, Gwynfryn, Llangeitho, TREGARON SY25 6TR

"Y gwyliau rydych wedi'u gohirio ers blynnyddoedd"
Peidiwch ag oedi rhagor!

Patagonia :: Gwlad y Cewri

Pobl - Tir - Iaith - Hanes - Traddodiad - Dathlu - Difyrwch
Y trefnwyr mwyaf profiadol - yr unig rai sydd â'u
gwreiddiau yn ddwfn yn y Wladfa.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Elvey MacDonald,
Haulfan, Maes Carrog, Llanrhystud, Ceredigion. SY23 5AL
01974 202052 | e-bost: elveymac1@btinternet.com

loga

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.
Pris £5.00
Cysylltwch a
Sue Jones-Davies
01970 624658

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Dyddiadur

Mis Mawrth

- Bethel 2.00 Gweinidog
Nasareth 11.15 Bugail (C)
Rehoboth 10.00 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11.00
Cymun Bendigaid
- Rehoboth 'Bil Stryd Isa'
- Bethel 10.00 Gwasaneth
Teulu. Digon o fwyd i bawb OS...
- Nasareth
Rehoboth 10.00 Huw
Roderick
Eglwys Dewi Sant 11.00
Boreol Weddi
- Sefydliad y Merched 2.00
'Colli Cof' (Lynne Clarke)
- Neuadd Goffa 7.30 Cwmni
Theatr Bara Caws yn
perfformio 'Hwyliau'n Codi'
(Sioe i'r teulu cyfan)
- Bethel 5.00 Gweinidog
Nasareth 5.00 Parch Judith
Morris
Rehoboth 10.00 Rhidian
Griffiths
Eglwys Dewi Sant 11.00
Gwasanaeth Deuluol
- Eglwys Dewi Sant 6.00
Gwasanaeth Undebol (Dydd
Iau Cablyd)
- Bethel 10.00 (Sul y Groglith)
Gweinidog (C)
- Bethel 10.00 Y Parch Gerald
Jones (C) 2.00 Oedfa'r Plant
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth
Eglwys Dewi Sant 11.00
Cymun Bendigaid

Mis Ebrill

- Bethel Undebol yn Noddfa
Nasareth 10.00 Bugail (C)
Rehoboth 5.00 Bugail
Eglwys Dewi Sant 11.00
Cymun Bendigaid

Cffi Tal-y-bont

Cyfarfod agored y Rali
Nos Fawrth, 12 Mawrth
8 o'r gloch
Neuadd Goffa Tal-y-bont
Croeso i bawb

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn dyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.



Ariennir gan
Llywodraeth Cymru

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rebecca ac Arthur gyda Ceri Jones yn dylunio. Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Enid a Robat (01970 832718; enidgruffudd@talktalk.net). Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn Dydd Gwener, 5 Ebrill. Bydd y papur ar werth dydd Gwener 12 Ebrill.

Sefydliad y Merched, Eglwysfach

Cafodd yr aelodau noson ddiddorol yng nghwmni Richard Spencer a siaradodd ar thema "*In the footsteps of my father.*" Disgrifiodd, mewn geiriau a lluniau, daith gyda'i chwaer i Ynysoedd y Ffaro. Bu tad Richard ar yr ynysoedd yn ystod yr Ail Ryfel Byd a dilynodd y ddau ei ôl troed fel petai. Cafodd y ddau groeso bendigedig gan bobl yr ynysoedd.

Canolfan fydd a diwylliant
Centre for faith and culture

DIGWYDDIADAU MORLAN:

- Rhanna Rodd (12-2, 8 Mawrth & 10-12, 9 Mawrth) – cyfle i gyfrannu rhoddion Masnach Bwyd ar gyfer Bancn Bwyd Aberystwyth
- C21 yn Morlan (7.30, 13 Mawrth a 27 Mawrth)
- Arddangosfa o waith gan brosiect celf Plas Llest (trwy'r mis)
- Caethiweid Branwen (7.30, 13 Mawrth). Tocynnau: £5/£4

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk

CROESO CYNNES I BAWB!
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu Penywern, Tal-y-bont sydd wedi colli perthynas yn Sir Fôn yn ddiweddar, sef Don MacDarran, gŵr Mair Penywern.

Ffordd ar gau

Mae'r ffordd rhwng Penrhyn-coch a Bont-goch ar gau am gyfnod o chwe wythnos er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw ger Ty'n-y-cwm. Mae amynedd y trigolion yn cael ei brofi i'r eithaf wrth ddefnyddio 'ffordd osgoi' y Lôn Groes i Bow Street, ond rydym i gyd yn elwa o ymarfer refersio!

Ysgoloriaeth

Llongyfarchiadau i Elliw Dafydd, wyres Gwilym ac Ann Jenkins, Llety'r Bugail, sy'n astudio actio, ar dderbyn un o ysgoloriaethau Coleg Cerdd a Drama Cymru. Cyflwynyd yr ysgoloriaeth iddi gan Dywysog Cymru, Noddwr y Coleg, ar 1 Mawrth, Dydd Gŵyl Dewi 2013. Dyfarnwyd yr ysgoloriaethau i bum myfyriwr is-raddedig ac ôl-raddedig y Coleg a ddangosai dalent eithradol yn ystod eu hastudiaethau.

Wyrion newydd

Llongyfarchiadau i'r sawl sydd wedi dod yn Famgu neu'n Dadcu yn ddiweddar sef:

Mary a Keith Fletcher, Ynys Aderyn, Eglwysfach ar enedigaeth eu hwyres gyntaf, Martha Ophelia, merch i Polly a Richard; a Del ac Ian Tansley, Yr Hen Ysgol, Eglwysfach ar enedigaeth eu hwyres gyntaf, Eli Mair.

Penblwydd Arbennig

Anfonwn longyfarchiadau gwresog at Rosie Evans, gynt o Faes-y-Deri, sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Tregerddan, ar ddathlu ei phenblwydd yn 100 oed ar 16 Chwefror.

Dathlu'r Deunaw

Llongyfarchiadau i Sam Ebenezer, Maes-y-Felin, Tal-y-bont, ac hefyd i Gruffydd Jones, Pistyll y Llan, Tal-y-bont sydd wedi dathlu eu 18 oed yn ddiweddar.

Gwellhad Buan

Dymunwn yn dda i Mr Gareth Evans, Sŵn-y-ffrwd, Bont-goch sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais ers nifer o wythnosau.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn fawr â Hywel Jenkins, Gwedd Ynys, Llangynfelyn a'r holl deulu, ar ôl colli ei wraig Catherine ym mis Chwefror.

Pobl a Phethe



Dathlu Dydd Gŵyl Dewi, Ysgol Llangynfelyn - tud 5

Doethuriaeth

Llongyfarchiadau i Andrew Birch, gynt o Goetre, Llangynfelyn, ar ennill gradd doethuriaeth ym Mhrifysgol Lerpwl.

Y Stafell Haearn, Eglwysfach

Mae'r sinema newydd yn mynd o nerth o north ac mae'n hynod boblogaidd yn y gymuned. Yn ddiweddar cafwyd dau ddangosiad llwyddiannus sef *Skyfall*, y ffilm James Bond newydd, a noson o hwyl gyda *Mama Mia*.

I logi'r stafell ar gyfer parti preifat neu gyfarfod (£5 yr awr), cysylltwch ag Alison Swanson 01654 781322; alisonswanson@hotmail.com

Colled

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Betty Tebay, Y Berth, Tre Taliesin gynt, yn 97 oed, ar ddiwedd mis Ionawr eleni. Cymeriadau adnabyddus a phoblogaidd oedd Betty a'i gŵr Stan yn y pentre ers talwm. Er 2006 roedd hi wedi byw mewn cartref henoed yn Stalbridge, Lloegr, ger cartref ei nith.

Ail-ymgartrefu

Braf yw cofnodi bod Bill a Barbara Gardner, Y Pandy, Tal-y-bont, a Nick a Karin Hughes, Yr Hen Bopty, Tal-y-bont, wedi dychwelyd i'w tai ar ôl llifogydd mis Mehefin.

Eisteddfod

Llongyfarchiadau i'r cystadleuwyr lleol a fu'n llwyddiannus yn eisteddfod Ysgol Penweddig. Enillodd Esther Llwyd Ifan ar y gystadlaethau llefaru i ddisgyblion blwyddyn 10 i 13, ac, ynghyd â'i ffrind Emily fe ddaeth Niamh O'Donnell yn gyntaf ar y ddeuawd i flynyddoedd 7 i 9. Dyfarnwyd y wobwr am y Cantor Gorau i Sam Ebenezer wedi iddo ennill ar yr unawd i fechgyn (bl 10-13) a'r unawd sioe gerdd.

Parêd Gŵyl Ddewi

Cafodd Tal-y-bont ei gynrychioli'n anrhydeddus ym Mharêd Gŵyl Ddewi cyntaf erioed Aberystwyth – gydag Alaw Griffiths, Y Garth a Medi Evans, Neuaddfawr yn dawnsio'r glocsen, a Sam Ebenezer hefyd yn chwarae rôl flaenllaw.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr (ychydig yn hwyr!) i Helen Ovens ac Innes Heron, Crud yr Awel, Tre Taliesin, ar enedigaeth eu merch Edith Gwen Heron ar 30 Rhagfyr 2012.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Claire Pickard, Epworth Villa, Tre Taliesin ar basio ei phrawf gyrru. Go dda ti Claire!

Cydymdeimlad

Gyda thristwch nodwn farwolaeth Iris Ebenezer, Maes-y-Deri, ar 2 Chwefror - mam, mam-yng-nghyfraith, mamgu a hen-famgu i'r teulu Ebenezer, 2 Maes-y-Felin. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i'r teulu cyfan.

Cydymdeimlwn yn ogystal â Delyth Ifan a'r teulu, Llys Alaw, Maes-y-Felin, sydd wedi colli ewythr, Lawrence Jenkins yn Llandisilio.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd ag Avril a Dai Bond, Brodawl, Tre Taliesin a'r teulu yn Nhal-y-bont ar golli eu perthynas Desmond Bond yn ddiweddar, nai i'r diweddar John Bond. Yn y Borth roedd Desmond yn byw ond ar un adeg bu'n byw yn Nhre Taliesin.

Bu farw Gwen Pugh, Tynrhos Fach, Bow Street – modryb i Mal Jones, Penlonlas, a mamgu i Eirian ac Aled Jones, gynt o Lys Dewi, Tal-y-bont. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

Cydymdeimlir â Mrs Cathy Jones a'r teulu, Cnwc-y-bar cud, Bont-goch yn dilyn profedigaeth deuluol yn ddiweddar.

Gwellhad Buan

Da clywed bod Margaret Jones, Nantgaredig, Tal-y-bont wedi gwella ar ôl bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Hefyd dymunwn wellhad buan i Max Byrne, Maes Clettwr, Tre'r Ddôl sydd wedi cael llawdriniaeth ar ei glun.

Penblwydd Hapus

Penblwydd hapus iawn i Robat ac Enid Gruffudd, Bryngwyn, Tal-y-bont – y ddau ohonynt wedi dathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar.

Croeso

Croeso mawr i Joab Hustings, Polly, Felix ac Elsie sydd wedi symud yn ôl i'r pentref i fyw yn 1 Tŷ Mawr, Eglwysfach ac hefyd i Paul (Chef Gwesty Ynyshir) sydd wedi symud i Gwelfor, Ffwrnais.

Rhaglen Ffermio

Braf oedd gweld Mrs Elin Williams, ei phriod Rhys, a'r teulu ar raglen *Ffermio* ar Chwefror 5ed. Mae Elin, sy'n ferch i Emyr a Lisa Davies, Llety Ifan Hen, Bont-goch a Rhys newydd gymryd tenantiaeth Fferm Typica yn Horeb ar gyrion Caerfyrddin, a chawsant eu holi ar ffilm gan Alun Elidyr am eu gobeithion ar gyfer y dyfodol wrth ymgymryd â chyfrifoldeb newydd cyffrous.

Addawyd y byddai *Ffermio* n dychwelyd maes o law i weld sut maen nhw wedi ymdopi â'r sialens. Edrychwn ymlaen at weld y bennod nesaf, a dymunwn bob llwyddiant iddynt fel teulu.



Aelwyd Bro Ddyfi

Noson Hwyl Ddewi

Cafwyd noson hwyllog iawn yng nghwmni criw Aelwyd Bro Ddyfi i ddathlu Gŵyl Ddewi yn Neuadd Tal-y-bont ar nos Sadwrn 2 Mawrth. Yn unol â'r traddodiad cafwyd cawl blasus a phaned, cyn i'r côr ddiddanu neuadd lawm gyda rhaglen amrywiol oedd yn cynnwys darnau allan o Atgof o'r Sêr a'r clasur o waith Waldo Williams, Tangnefeddwyr. Ar wahân i ambell jôc gloff (am geffylau!!), mae'n siŵr taw hon oedd y noson gyntaf yn y neuadd i gynnwys deuawd gan foch daear, a deuawd yn canu clodydd pysgodyn aur o'r enw Wili!



Mair Nutting yn gweini cawl



Deuawd y pysgodyn aur



Ysgol Llangynfelyn



Gweithdy KNEX

Gwaith celf Ynys Hir



Ynys Hir



Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi

Ysgol Llangynfelyn

Staff Newydd

Croesawn Miss Seren Smith atom fel Cynorthwy-ydd Dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen. Gobeithiwn y bydd hi'n hapus iawn gyda ni yn yr ysgol.

Plant Newydd

Croesawn hefyd deulu newydd i'r ysgol. Mae Harvey wedi dechrau gyda ni ym Mlwyddyn 4 a Violet ym Mlwyddyn 1. Maent wedi ymgartrefi'n gyflym iawn yma gyda ni.

Sgôr Hylendid Bwyd

Llongyfarchiadau i Ms Lisa Roberts sy'n cario a gweini'r bwyd o Ysgol Tal-y-bont ac i Miss Wendy Foulkes a Ms Karen Stacey, staff y Clwb Brecwast, am ennill 5 yn y Sgôr Hylendid Bwyd. Mae hyn yn meddwl fod cegin Ysgol Llangynfelyn yn cael y sgôr uchaf posibl am lendid yn y gegin gan Gyngor Sir Ceredigion. Da iawn chi!

Gweithdy KNEX

Mwynhaodd plant Cyfnod Allweddol 2 sesiwn diddorol a chreadigol iawn mewn gweithdy KNEX yn yr ysgol. Daeth Mr Eifion Collins o XL-Wales a llond fan o focsys KNEX i'r plant. Buont yn brys iawn yn cynllunio ac adeiladu melinau gwynt allan o'r KNEX.

Ynys Hir

Aeth holl ddisgyblion yr ysgol i Warchodfa Natur Ynys Hir i wneud gwaith celf yn yr awyr agored. Buont yn arsylwi ar y coed, yr anifeiliaid a'r adar o'u cwmmpas cyn tynnu lluniau gan ddefnyddio deunyddiau amrywiol. Yn ddiweddarach yn y mis daeth Jenny Dingle a Bev Dimmock o'r RSPB i gynnal gweithdai argraffu gyda'r plant yn dilyn yr ymweliad. Arddangoswyd gwaith y plant yn yr Ystafell Haearn yn Eglwysfach gyda gwaith disgyblion Ysgol Bro Ddyfi. Diolchwn i'r RSPB am y nawdd i dalu am yr ymweliad.

Dathliadau Dydd Gwyl Dewi

Ar brynhawn Ddydd Gwener, 1 Mawrth, cafwyd dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn yr ysgol. Bu'r plant, rhieni a brodyr a chwiorydd iau yn gwneud gweithgareddau crefft cennin Pedr, yn coginio Pice Bach ac yn dysgu Dawnsio Gwerin traddodiadol Gymreig. Ar ddiwedd y prynhawn daeth pawb at ei gilydd i ganu caneuon Jambori'r Urdd. Diddanodd Ffion Hicks bawb drwy ddangos ychydig o'r stepiau clocio y mae hi wedi dysgu yn y Clwb Clocio yn Nhal-y-bont. Braff iawn oedd gweld y plant wedi gwisgo yn eu gwisgoedd Cymreig traddodiadol a'r rhai llai traddodiadol hefyd! Diolchwn i Mrs Jones y Gegin yn Ysgol Tal-y-bont am y cawl blasus i ginio. Cafwyd diwrnod arbennig iawn.

Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth

Croesawyd yn ôl y llenor Manon Rhys i Gymdeithas y Chwiorydd yn festri Rehoboth, Taliesin brynhawn Llun, 18 Chwefror, a chlywsom ail ran y sgwrs a draddododd ar ei hymweliad cyntaf y llynedd. Mae wrth ei bodd yn dychwelyd i Geredigion gan fod gwreiddiau ei theulu mewn tri man arbennig yma, sef Tregaron, Ffosyffin ac Aberystwyth. Tra'n aros yn Aberystwyth am rai dyddiau bu'n gwneud ymchwil ar gyfer ei nofel newydd, ac yn dilyn ei llwybrau pan oedd yn fyfyrwraig yn Adran y Gymraeg yn yr Hen Goleg ynghanol bwrllan y 1960au. I orffen, darllenodd ddarnau byr o'i nofel newydd, gyda phob un ohonom yn edrych ymlaen at ei darllen pan gaiff ei chyhoeddi. Diolchwyd iddi am brynhawn difyr iawn gan Carys Briddon. Avril Bond ac Ann Humphreys oedd yng ngofal y te.



Cyhoeddwyd yn ddiweddar y rhai a fu'n llwyddiannus yn eu ceisiadau i rannu'r £15,000 oedd ar gael gan Gronfa Eleri eleni, sef: Eglwys Penrhyn-coch; Capel Bethel Tal-y-bont; CFfi Tal-y-bont; Horeb Penrhyn-coch; Henoed Llandre; Biosffer Dyfi; Cwmni Clettwr; Treftadaeth Llandre ac Ysgol Tal-y-bont.

Mae Cronfa Eleri wedi bod yn cefnogi achosion lleol ers 1998. Yn ystod y cyfnod hwn cefnogwyd 150 o gynlluniau - nifer ohonynt yn llwyddo i ddenu cefnogaeth o gronfeydd eraill hefyd yn sgil yr arian gan Gronfa Eleri. Mae'r cyfanswm a gyfrannwyd bellach dros £184,000.

Bob blwyddyn bydd pwyllgor y Gronfa'n argymhell i gwmni Amgen, sy'n gyfrifol am fferm wynt Mynydd Gorddu, pa gynlluniau y dylid eu cefnogi. Wrth bwysu a mesur, mae'r pwyllgor yn ystyried pa gynlluniau sy'n cyfrannu fwyaf at hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol yr ardal wedi ei chanoli ar Fynydd Gorddu.

Bydd hysbysiad am geisiadau ar gyfer 2013 yn cael ei gyhoeddi yn yr Hydref. A oes gennych chi gynllun a allai fanteisio ar Gronfa Eleri?

Am unrhyw wybodaeth bellach dylid cysylltu â: Ysgrifennydd Cronfa Eleri, Garreg Wen, Tal-y-bont SY24 5HJ; ymholiadau@cronfaeleri.com www.ynniamgen.com

Cofio chwe chenhedlaeth

Daeth darllen erthygl Eric o Lanelltyd (Papur Pawb, mis Chwefror 2013) â llawer o atgofion melyn bore oes yn ôl i mi.

Gaf i yn gyntaf gywiro nad mab Brynteg oedd Eric fel yr ymddangosodd yn y rhagarweiniad i'w erthygl. Pan ddaeth ei ewythr a'i fodryb, Edward John a Hannah Jen Williams o'r Allt Ddu ger godre'r Hafan, lawr i Frynteg i fyw yn y tridegau, pâr di-blant oeddent.

Treuliodd Eric lawer o'i amser ysgol ym Brynteg yn ystod yr wythnos. Ei Dadcu a'i Famgu, Dafydd a Sara Williams, Rhydfach Isaf, fagodd Eric; bwthyn bach pridd oedd Rhydfach Isaf amser hynny - Maesymeillion heddiw, lle mae Aeron ac Eileen yn byw.

Mae teulu Eric yn un o'r teuluoedd hynaf sydd yn y pentref yma, ac maent yma o hyd, ac mi fyddant yma am ganrifoedd eto gobeithio.

'Roedd Eric bedair blynedd yn hŷn na fi ond cawsom ni blant Tynygraig, Rhydfach Ganol, Herbert, Alun a Megan, ifaciwis Cwmslaid, Beti a Ieuan Maesglas, Gwilym ac Averinha Caer Arglwyddes lawer iawn o'i gwmni wrth gerdded yn ôl a 'mlaen i'r ysgol.

Bu Dafydd Williams yn gweithio yn y Sowth, yn y pyllau glo yn nechrau'i oes. Ym Mardy. Pan ddaeth yn ôl i Rydfach bu'n cwympo coed yng nghwm Tynygraig i wneud coed tân, a nhad yn mynd a llwyth o flocs mewn sachau efo'r gaseg ar gambo iddo i'r pentref bob dydd Sadwrn i'w gwerthu.

Dynes fach oedd Sara Williams ond dynes fywiog iawn, hapus a gweithgar. Ymddangosai Dafydd bob bore dydd Llun mewn trwsys rib hollol wyn a glân. Bu Sara farw yn ystod y storom eira fawr 1947. Bu'r cymdogion a'r pentrefwyr wrthi am ddiwrnodau'n clirio llwybr i gario ei chorff o Rydfach i'r fynwent, llwybr ddigon llydan i ddau ddyn bob ochr i'r elor gerdded yn hwylus. Lluwchfeydd ugain troedfedd a mwy mewn rhai manau. Nid oedd ein cyndeidiau yn meddwl mynd â chorff i'r capel amser hynny. Credent mai lle'r byw oedd y capel.

'Roedd Sara'n ail wraig i Dafydd; ganwyd iddynt un ferch, Sue, a briododd William Edwards, Elerch House, Bontgoch. Ganwyd iddyn nhw ddwy ferch ac un mab, Gareth. Priododd Gareth, Meri a ganwyd iddynt fab o'r enw Ceneth mae'n debyg. Collais fy nghysylltiad â'r genhedlaeth hon.

Pan ddaeth Alun a Hayley a'u pedwar plentyn i fyw i Gwynfryn, Tal-y-bont, deallais heb fod yn hir iawn mai merch Ceneth yw Hayley. Pan welais hi a'i dwy ferch, Heledd ac Elinor yn y capel un bore Sul, gwelais eu hen, hen, hen famgu yn amlwg iawn yn y ddwy. 'Roedd y ddwy yr un ffunud a Sara Williams. Dwy Gymraes lân, dwy ag asgwrn ysgafn, dwy ddireidus, bywiog ac annwyl iawn.

Braint yw cael byw yn ddigon hen i gofio chwe chenhedlaeth.

Gwilym Jenkins

Trydan dŵr y Foel

Mi fydd hanes melinau gwlan Tal-y-bont yn gyfarwydd iawn i ddarllenwyr Papur Pawb, er na welwyd yr un yn troi ers tro byd.

Ond mae'r dŵr fu'n eu gyrru yn dal i lifo'n ddiflino drwy'r pentref ac yn cynnig ffynhonnell ynni adnewyddadwy werthfawr iawn i un teulu yn yr ardal.

Ers diwedd Tachwedd 2012 mae pwerdy hydro Moel Golomen wedi bod yn cyflenwi anghenion trydan Rhodri Lloyd-Williams a'i deulu ifanc wrth iddynt adnewyddu eu cartref ar glos y fferm.

Ac mae unrhyw beth sydd dros ben yn cael ei fwydo i'r grid cenedlaethol.

Fferm fynydd yw'r Foel sydd yn ymestyn dros 750 cyfer o dir y mae tad Rhodri, Simon yn ei ddisgrifio fel "severely disadvantaged". Mae ganddynt dros 800 o famogiaid a 25 o wartheg stôr ond ansicr yw bywoliaeth ffermydd mynydd ar y gorau.

Roedd yr angen i arallgyfeirio er mwyn sicrhau dyfodol economaidd y fferm wrth wradded y penderfyniad i fuddsoddi yn y cynllun uchelgeisiol hwn.

Esboniodd Rhodri. "Mae ynni adnewyddol yn rhywbeth mae'r teulu i gyd yn teimlo'n gryf amdano, ond roedd yn rhaid i'r cynllun wneud synnwyr busnes hefyd."

"Busnes yw'r fferm ac roedd yr opsiwn i arallgyfeirio a chynhyrchu incwm allan o rywbeth newydd mewn byd economaidd ansicr yn bwysig iawn. Pan mae'r pwmp yn rhedeg mae'r fferm yn hunangynhaliol ac mae'r cynllun wedi gwneud i ni ail feddwl am sut ni'n gwresogi'r tŷ. Mae popeth yma'n cael ei wresogi gyda thrydan nawr, hyd yn oed y llawr."

Dechreuwyd ar y gwaith dros ddwy flynedd yn ôl a bu rhaid cynnal cyfres o astudiaethau amgylcheddol cyn sicrhau caniatâd cynllunio.

Mae'r cynllun yn ymestyn dros 800 metr i fyny'r dyffryn, o glos fferm y Foel i afon fechan uwchben Nant Perfedd. Yno mae'r dŵr yn cronni mewn tanc cyn llifo drwy biben blastig ar raddfa o 35 litr yr eiliad a chwmpo 60 metr o uchder.



Dde i'r Chwith: Rhodri a Simon Lloyd-Williams a'r twrbein trydan hydro newydd ym Moel Golomen.

Er nad yw'r twrbein a'r generator yn llawer mwy na hanner metr o led a metr o daldra gall gynhyrchu hyd at 13.2 cilowat awr o drydan, ac ers diwedd Tachwedd cynhyrchwyd bron i 21,000 cilowat awr.

Ac os nad ydych yn deall sut mae mesur trydan, ystyriwch hyn. Mae un tegell angen tua 3 cilowat i gyrraedd y berw. Petai'n berwi am awr, dyna i chi 3 cilowat awr. A phetaech am oleu'r pentref, byddai pwerdy'r Foel yn ddigon i oleuo 1320 o fylbiau 10 wat am awr.

Wrth gwrs, nid oes gan bawb yr adnoddau naturiol i ddatblygu cynllun o'r fath, er bod llawer wedi buddsoddi mewn paneli solar.

Ond, mewn byd lle mae llawer yn darogan prinder trydan, mae'n bosibl y bydd galw am lawer mwy o gynlluniau cynhyrchu trydan bychain megis yr un ym Moel Golomen. A pha well lle i wneud hynny na mewn pentref a adeiladwyd yn rhannol ar rym y dŵr.

AD

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar nos Lun, 11 Chwefror, i drafod yr ohebiaeth a'r materion a godwyd gan y gymuned. Trafodwyd y ceisiadau am gymorth ariannol a dderbyniwyd a rhoddwyd grant i bob cymdeithas leol a wnaeth gais.

Ymhlith y materion a godwyd oedd: diffyg llinellau melyn yn Nhaliesin sy'n arwain at gerbydau yn cael eu parcio mewn mannau peryglus, megis cyffyrdd, sy'n amharu ar allu gyrwyr i weld yn glir; rhannau o ffordd sydd angen ei hysgubo oherwydd llaid a dail; cyflwr gwael rhannau o Lwybr yr Arfordir; cyflwr gwael a pheryglus y ffordd i Llonio. Bydd y Clerc yn cyflwyno'r materion hyn i adrannau perthnasol y Cyngor. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Mawrth 2013.

Cymdeithas Dreftadaeth Llangynfelyn

Nid o ddewis y byddai rhywun yn lansio menter newydd ar noson oera'r flwyddyn, ond dyna oedd ffawd cyfarfod cyntaf Cymdeithas Dreftadaeth Llangynfelyn.

Er gwaethaf y rhew a'r eira, roedd yn galonogol iawn gweld rhyw ddeg ar hugain o bobl leol yn dod i Festri Rehoboth, Taliesin ar nos Fawrth 22 Ionawr. Cawsom sgwrs fywiog a diddorol iawn gan Nigel Callaghan ar hanes Pwll Romans, Taliesin a'i effaith llesol ar y gymdogaeth gyfan.

Cynhaliwyd yr ail gyfarfod ar Chwefror 26, pryd y daeth tua hanner cant i glywed Barbara Walker yn sôn am bwysigrwydd yr afon Ddyfi a Derwenlas ym mywyd masnachol yr ardal cyn dyfodiad y rheilffordd. I ble aeth yr holl brysyrwch, dwedwch?

Bwriedir cynnal cyfres o gyfarfodydd misol yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar bynciau hanesyddol o ddiddordeb i'r plwyf am yr ardal ehangach. Cynhelir y cyfarfodydd ar bedwaredd nos Fawrth y mis, y nesaf ar Fawrth 26 am 7.30 yn Festri Rehoboth, Taliesin pryd y byddwn yn olrhain hanes hen siopau'r fro. Croeso i bawb.

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Y ffotograffydd, Marian Delyth, oedd y wraig wadd yn y cyfarfod ar nos Lun, 18 Chwefror, a chroesawodd ein llywydd, Falyri Jenkins yr aelodau o'r cyhoedd a ymunodd â ni. Bu Marian Delyth yn ffotograffydd proffesiynol ers dros ddeng mlynedd ar hugain erbyn hyn. Yn 2004 aeth ar brosiect i Swaziland yng nghwmni Mary Wells pan fu Mary'n dysgu crochenwaith i'r brodorion, a Marian yn tynnu lluniau i gofnodi hynny yn ogystal â dysgu criw o bobl ifainc sut i dynnu lluniau. Cawsom y stori tu ôl i'r llun drwy gyfrwng y lluniau gwych a welsom o'r brodorion a'u ffordd o fyw. I gloi, dangosodd luniau a dynnodd tra ar ei hymweladau ag Ynys Enlli, a hefyd luniau o'r diwylliant Cymreig a brwydr yr iaith ar hyd y blynyddoedd. Diolchwyd i Marian am noson bleserus gan Medi James. Paratowyd paned o de gan Aileen Williams, Beti Jenkins a Falyri Jenkins.

argraffu da
am bris da

yLolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd nos Lun 25 Chwefror 2013.

Gwaith Dŵr Bont-goch

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Dŵr Cymru yn nodi eu bwriad i wario £7.5m ar weithfeydd dŵr Bont-goch. Cynhelir sesiwn i rannu gwybodaeth am y cynllun i drigolion lleol, yn Eglwys Bont-goch ddydd Iau 7 Mawrth. Byddant yn anfon gwahoddiad i drigolion yr ardal yn fuan. Cytunodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Emyr Davies, a'r Clerc i fynychu'r digwyddiad ar ran y Cyngor.

Gwefannau i Gynghorau Tref a Chymuned

Adroddodd y Clerc fod y Cyngor wedi derbyn llythyr yn ei hysbysu bod Llywodraeth Cymru wedi clustnodi £1.25 miliwn i gefnogi democratiaeth leol, a chryfhau'r cysylltiad â'r cyhoedd. Nodir y bydd pob Cyngor Sir a Chyngor Bwrdeistref yng Nghymru yn derbyn £500 am bob Cyngor Tref a Chymuned sydd o fewn eu hardal, gyda'r bwriad o annog Cynghorau llai i gynnal gwefannau. Disgwylir clywed rhagor gan y Cyngor Sir am eu cynlluniau.

Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion

Hysbyswyd yr aelodau fod yr Archwilydd bellach wedi cyflwyno copi drafft o'i adroddiad i'r Cyngor Sir i gadarnhau cywirdeb ffeithiol yr wybodaeth ynddo; cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar 20 Mawrth 2013. Os yw'r Archwilydd o'r farn bod y Cynllun yn un cadarn, disgwylir i'r Cyngor Sir fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol o fewn 8 wythnos i ddyddiad derbyn yr adroddiad.

Problem Traffig yn Bont-goch

Derbyniwyd negeseuon oddi wrth nifer o drigolion Bont-goch yn cwyno am yr anhrefn a achosir yn ddyddiol gan y gwaith ffordd ger Ty'n-y-cwm. Adroddodd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn nad oedd unrhyw sail i'r si y byddai'r gwaith yn ymestyn dros gyfnod o 12 wythnos yn hytrach na'r cyfnod gwreiddiol o 6 wythnos.

Hawliau Parcio

Derbyniwyd cwynion am ymweliad Warden Traffig â Thal-y-bont yn ystod yr wythnos flaenorol, pan fynodd nad oedd hawl gan fodurwyr i barcio yn yr arhosfan o flaen Siop Spar/Swyddfa'r Post oherwydd y llinellau melyn dwbl ar y ffordd fawr yn y fan honno. Ymddengys fod sylw'r Warden na ddylid parcio rhwng y llinellau melyn a blaen y Swyddfa Bost yn dechnegol gywir. Cytunwyd i anfon llythyr at Gyfarwyddwr Adran Prifffyrdd Cyngor Sir Ceredigion yn croesawu ymweliadau'r Warden Traffig i'r pentref yn achlysurol, ond yn tynnu sylw at y problem benodol o flaen y Swyddfa Bost a gofyn am newid trefn y llinellau melyn dwbl ar y ffordd o flaen y siop. Yn y cyfamser, pwyswyd ar y Cyngor Sir i beidio ag erlyn modurwyr sy'n parcio yn yr arhosfan.

Cyflwr ffordd

Cytunwyd i gysylltu unwaith yn rhagor â'r Adran Prifffyrdd, Eiddo a Gwaith i gwyno am gyflwr wyneb y ffordd rhwng Brynhyfryd a'r Llew Du, gan fod dŵr wedi bod yn llifo ar draws y ffordd yn ddi-dor ers mis Mai 2012. Yn ystod y tywydd oer diweddar roedd rhew trwchus ar hyd rhan helaeth o'r ffordd yn y fan hon.

Cyflwr Llawr y Cae Bach

Adroddwyd mai'r contractwyr fu'n gosod pibellau carthffosiaeth ar gyfer y byngalo newydd ym Maes-y-deri sy'n gyfrifol am gyflwr gwael rhan o'r tir yn y Cae Bach; ymddengys eu bod wedi chwistrellu dŵr mwdlyd o'r safle adeiladu i ddraeniau yn y Cae Bach. Cytunwyd i anfon llythyr at Gyfarwyddwr Tai Ceredigion yn tynnu sylw at y problem, gan fynnu bod Tai Ceredigion yn trefnu i lanhau'r cyfan cyn gynted ag y bo modd.

Rheoli Cyflymdra Traffig

Oherwydd cyflymdr y cerbydau sy'n teithio i mewn i'r pentref ar hyd yr A487 o gyfeiriad Aberystwyth, cytunwyd i ysgrifennu at Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn holi a oes modd codi arwydd ffordd sy'n dynodi cyflymdr cerbydau wrth iddynt gyrraedd cyrion y pentref.

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Yn ddiweddar cefais newyddion da oddi wrth y Gweinidog Busnes Edwina Hart pan gyhoeddodd ei bod yn bwriadu creu Parth Twf Lleol yn Nyffryn Teifi. Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd y byddai'r ardal yn cael ei blaenoriaethu ar gyfer cyflwyno band eang cyflym iawn. Rwyf wedi bod yn pwysu ers yn hir i gael Ceredigion yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad band eang cyflym iawn. O leiaf nawr bydd rhai rhannau o Geredigion yn elwa yn 2013-2014, tra bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddarparu band eang cyflym iawn i bob ardal erbyn diwedd 2015.



Fis diwethaf yn y Cynulliad, nodais fod yna rhai ysgolion yng Ngheredigion wedi cael eu lleoli ar rwydwaith cefnffyrdd ac mewn rhai achosion mae'r cyflymdr yn 40 milltir yr awr. Mae llawer o rieni a phlant ysgol wedi codi'r mater yma gyda mi ac maent yn credu fod y cyflymdr yma'n beryglus ger ysgolion. Roeddwn yn awyddus i gael cefnogaeth y Gweinidog Trafnidiaeth i gael cyflymdr o 20 milltir yr awr yng nghyffiniau ysgolion ar yr adegau mae ysgolion yn agor a chau. Yn y gorffennol mae hyn wedi bod yn anodd ei gyflawni ar gefnffyrdd megis yr A487 a'r A44. Yr wyf yn falch bod y Gweinidog Trafnidiaeth wedi cadarnhau y byddai'n edrych yn ffafriol ar geisiadau o'r fath yn y dyfodol. Mae ymgyrch i'r perwyl hwn yn cael ei gynnal yng Nghapel Bangor ar hyn o bryd ac mi es i yno i'w gefnogi.

Ar ddydd Sadwrn 2 Chwefror, mynychais rali Cymdeithas yr Iaith i nodi 50 mlynedd ers ei sefydlu. Ar y dydd Sul mynychodd cannoedd o bobl y cynhyrchiad gan Theatr Genedlaethol Cymru i ail-greu protest Pont Trefechan 50 mlynedd yn gynharach. Mi roedd y ddau ddiwrnod yn llwyddiannus iawn.

Newyddion da oedd clywed fod neuadd Llanddewibrefi wedi derbyn £150,000 oddi wrth y Cynulliad er mwyn adnewyddu neuadd y pentref. Mae'r neuadd yn cael ei defnyddio gan wahanol gymunedau yn yr ardal ac mae'r ysgol leol yn elwa llawer drwy gynnal amryw o weithgareddau yno. Rwy'n dymuno pob llwyddiant iddyn nhw ac rwy'n edrych ymlaen at weld y neuadd unwaith y mae'r gwaith wedi ei orffen.

Bistro Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dyfchmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278

www.davmorgarage.co.uk

Ysgol Tal-y-Bont

Parêd Gŵyl Dewi

Cynhaliwyd y Parêd Gŵyl Dewi cyntaf erioed ar strydoedd Aberystwyth ar ddydd Gwener, 1 Mawrth ac yn rhan o'r dathliadau roedd plant a staff Ysgol Tal-y-bont. Roedd hi'n hyfryd gweld y plant yn eu gwisgoedd Cymreig yn gorymdeithio drwy strydoedd y dre ac roedd cael cyfle i ymuno gyda channoedd o bobl eraill o ardal Gogledd Ceredigion i ddathlu diwylliant Cymraeg mewn ffordd newydd a gwahanol yn rhywbeth fydd yn siŵr o aros yn y cof.

Dosbarth y Cyfnod Sylfaen

Thema'r hanner tymor diwethaf oedd teithio, a dewis plant y dosbarth oedd treulio'r amser yn datblygu eu sgiliau ar draws y Meysydd Dysgu o dan yr is-thema môr-ladron. Felly, ar brynhawn dydd Mercher, 6 Chwefror trefnwyd diwrnod o hwyl yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen. Gwahoddwyd rhieni i ymuno gyda'u plant i gael parti môr-ladron. Roedd digonedd o gacennau blasus iawn a diodydd i bawb a hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu'n ein cynorthwyo.

Yn ogystal â hynny, trefnwyd gweithgareddau amrywiol o gwmpas y dosbarth gan gynnwys gwaith crefft, mathemateg, daearyddiaeth, gêmiau corfforol a gêmiau darllen. Roedd hyn yn gyfle gwyb i'r rhieni ddysgu gyda'u plant a mwynhau gweld yr holl brofiadau sy'n cael eu trefnu yn yr ysgol. Rhaid i ni ddiolch yn fawr iawn i bawb a roddodd gyfraniad i'r dosbarth er mwyn prynu adnoddau newydd. Rwy'n siŵr y cawn ni hwyl ar y gwario!

Mrs Rose Jones

Eisteddfod yr ysgol

Bydd Eisteddfod yr ysgol yn cael ei chynnal ar ddydd Mercher, 27 Mawrth yn y Neuadd Goffa i ddechrau am 9.00. Croeso cynnes i chi ymuno gyda ni i weld y cystadlu brwd rhwng Ceulan a Leri eleni eto.

Diwrnod y Llyfr

Byddwn yn dathlu Diwrnod y Llyfr eleni drwy wahodd aelodau o'r gymuned i'r ysgol i ddarllen stori gyda'r plant. Mae croeso i chi ddod i'r ysgol erbyn 9.00 ar fore dydd Iau, 7 Mawrth i roi stori o'ch dewis neu bydd digon o amrywiaeth ar gael yn yr ysgol. Bydd croeso i chi aros wedyn i gael paned a chacen. Byddwn yn codi arian i Childline Cymru ar y diwrnod hefyd.

Eisteddfod yr Urdd

Pob hwyl i bawb fydd yn cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd dros yr wythnosau nesaf a diolch yn arbennig i bawb sydd wedi ein cefnogi wrth hyfforddi'r plant.

Trip Llangrannog

Pan godais ar fore dydd Iau roeddwn i ar bigau'r drain i fynd i'r ysgol. Pan gyrhaeddais yr ysgol roedd y dosbarth yn llawn bagiau. Roedd pawb yn llawn cyffro wrth weld y bws yn cyrraedd tu allan i fynd â ni, sef Blwyddyn 3 a 4, i Llangrannog i aros am noson. Hwre!

Pan gyrhaeddodd ni Llangrannog aethom ni i'r stafelloedd newydd i ddadbacio. Ar ôl dadbacio aethom ni i'r weithgaredd gyntaf sef gwigbartio lawr llethr ar sled bach. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn er ei bod hi'n oer ac yn wlyb. I ginio cawsom ni sgldion, bins a *meatballs*. I bwdin cawsom ni darten afal blasus iawn.

Yr ail weithgaredd oedd y wal ddringo enfawr ac roedd rhaid i ni ddringo i'r top ac roedd hi'n waith anodd. Ar ôl y wal ddringo aethon ni ar y cwads. Roedd yn rhaid i ni wisgo helmed mawr trwm a chlustog gwddwg.

Ar ôl bod ar y cwads cawsom greision a sudd. Wedyn chwaraeon ni gemau tîm ac roedd yn rhaid i ni weithio'n dau dîm yn erbyn ein gilydd. Toc ar ôl y gêmiau tîm cerddon ni i'r stablau i reidio ceffylau. Roedd angen i ni wisgo hetiau caled. Ar ôl y ceffylau cawsom ni swper. Sbageti Bolonès oedd i swper.

Disgo oedd ar ôl swper. Joiodd pawb mas draw. Ar ôl y disgo aethon ni yn ôl i'r stafelloedd i gael gwledd ganol nos, wedyn aethon ni i gysgu!

Yn y bore deffrodd y bechgyn yn gynnar iawn ond roedd yn rhaid i Miss ddeffro'r merched! Fe gawsom ni facwn, wyau, tomatos, tost selsig, ffa pòb a grawnfwyd. Trampolin oedd gweithgaredd gyntaf y bore. Neidiodd pawb yn uchel iawn. Y weithgaredd nesaf oedd adeiladu lloches. Ar ôl adeiladu lloches fe gawsom ni ginio. Cyri a reis oedd i ginio.

Y weithgaredd olaf oedd y pwll nofio. Ar ôl y nofio roedd yn amser mynd adre. Roedd pawb yn teimlo'n drist wrth fynd i mewn i'r bws. Hwyl fawr a diolch yn fawr Llangrannog gwych!

Oisín a Glain



Storfa Canolbarth Cymru

STORFA DODREFN

STORFA FUSNES ARCHIFAU

STORFA I FYFYRWYR

PACEDU

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

www.midwalesstorage.co.uk
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
Ffôn: 01654 703592

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Garej Paul Joseph

01970 822220

**Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT**



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre

GOLCHDY LLANBADARN

**CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON**

GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



Ysgol Tal-y-Bont



Trip Llangrannog



Dosbarth y Cyfnod Sylfaen



Dosbarth y Cyfnod Sylfaen



Parêd Gŵyl Dewi



Cylch Meithrin Tal-y-bont

Bu plant y Cylch yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn y Neuadd Goffa fore dydd Iau, 28 Chwefror. Cafwyd cyfle i fwynhau amrywiol weithgareddau cyn cael cawl blasus a phaned gyda rhieni a ffrindiau'r Cylch. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.



Clwb Ffermwyr Ifanc Talybont

Yn ystod hanner tymor mis Chwefror, cynhaliwyd cystadleuath Adloniant CFFI Ceredigion yn Theatr Felinfach. Bu'r clwb yn parataoi ac yn ymarfer yn drylwyr ar gyfer y gystadleuaeth i berfformio'r ddrama 'Ffyrst Responders'. Ar ôl wythnos o gystadlu brwd, dyfarnwyd y clwb i'r 10fed safle. Diolch yn fawr iawn i Elen Pencwm a'r criw am gynhyrchu.

Yn nes ymlaen cynhaliwyd noson o ddramau yn Neuadd Goffa Tal-y-bont gyda chlwb Llangwryfon fel gwsteion. Cyflwynwyd sieciau'r canu carolau hefyd i Ambiwylans Awyr Cymru, Elusen Clefyd y Galon a Rali 2013. Cawsom noson lwyddiannus iawn a diolch yn fawr i bawb a ddaeth i gefnogi.

Ar ddydd Sul 24 Chwefror bu rhai aelodau'n cystadlu yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg CFFI Ceredigion. Eto cafwyd diwrnod prysur a chalonogol dros ben. Da iawn i bawb.

Elgan Evans



Lluniau o archif Papur Pawb

Cafwyd noson ddifyr yng Nghymdeithas Rehoboth, Taliesin, ar 5 Chwefror gyda Golygydd Cyffredinol Papur Pawb, Gwyn Jenkins, yn dangos hen ffotograffau o'r papur. Gwaith y criw yn y llun oedd ceisio adnabod y sawl a oedd yn y ffotograffau o ardal Llangynfelyn. Bydd rhai o'r ffotograffau hyn yn cael eu harddangos ar wefan Casgliad y Werin yn y man.



Eisteddfod CALAN MAI

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth

Nos Fercher, Mai 1af 2013 am 5 o'r gloch

Y Cystadlaethau

Eisteddfod gyfyngedig i blant, myfyrwyr ac oedolion cylch Aberystwyth (hynny yw o Daliesin yn y gogledd i Lanrystud yn y de a Phonterwyd yn y Dwyrain)

1. **Canu unigol i blant bl 5 a 6** – Gwobr: £30 i'w rannu
2. **Llefaru unigol i blant bl 4 ac iau** – Gwobr: £30 i'w rannu
3. **Canu unigol i blant blynyddoedd 4 ac iau** – Gwobr: £30 i'w rannu
4. **Llefaru unigol i blant blynyddoedd 5 a 6** – Gwobr: £30 i'w rannu

5. Cystadleuaeth Sgen Ti Dalent

Cystadleuaeth i unigolion neu grwpiau **dan 16 oed**. Gwahoddir cystadleuwyr i wneud unrhyw beth i ddiddanu cynulleidfâ am ddim hwy na 4 munud (gall fod yn unrhyw fath o ganu, dawnsio, dweud jôcs, gwneud triciau, actio, llefaru, ac yn y blaen). Caniateir hyd at 3 munud i baratoi'r llwyfan os oes angen. Gwobr: £200 i'w rannu

6. Bwyta bisged siocled heb ddefnyddio'r dwylo

Gwobr: £10 i'r bwyta'r cyflymaf

7. Ensemble lleisiol (3-8 aelod)

O leiaf tri llais gwahanol. Digyfeiliant. Ni chaniateir arweinydd. Gwobr: £100 i'w rannu

8. Ensemble offerynnol (3-8 aelod)

Dylid cael llinell annibynnol i bob offerynnwr. Ni chaniateir arweinydd. Gwobr: £100 i'w rannu

9. Cystadleuaeth i bâr

Un i ddarllen darn a roddir ar y pryd, a'r llall i wneud y synau/symudiadau. Gwobr: £50.

10. Unawd dros 18 oed

Gwobr: 1af: £100 a £100 arall i'w rannu

11. Sgetsh dim hwy na 5 munud.

Caniateir 3 munud ychwanegol i osod y llwyfan. Gwobr: £100 i'w rannu

12. Cystadleuaeth Sgen Ti Dalent?

I unigolion neu grwpiau **dros 16 oed**. Gwahoddir cystadleuwyr i wneud unrhyw beth i ddiddanu cynulleidfâ am ddim hwy na 4 munud (gall fod yn unrhyw fath o ganu, dawnsio, dweud jôcs, gwneud triciau, actio, llefaru, ac yn y blaen). Caniateir hyd at 3 munud i baratoi'r llwyfan os oes angen. Gwobr: £200 i'w rannu

13. Cystadleuaeth deuawd oed 12-26. Hunan ddewisiad. Geiriau gwreiddiol Cymraeg neu gyfieithiad i'r Gymraeg. Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yw hon a chaniateir i ddeuawdau sy'n ennill mewn dwy eisteddfod leol (a dwy yn unig) rhwng Medi 2012 a Gorffennaf 2013 fynd ymlaen i gystadlu ar y gystadleuaeth hon yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych am wobrau o £150, £100 a £50. Gwobr: 1af £50; a £50 arall i'w rannu

14. Côr (unrhyw nifer o leisiau) – dau ddarn.

Gwobr: 1af: £200 (a £200 arall i'w rannu).

Rhaid cofrestru ar gyfer pob cystadleuaeth llwyfan erbyn 23 Ebrill. Copiau o flaen llaw i'r cyfeillydd: Lona Phillips, Glyndŵr, Abermagwr, SY23 4AR, 01974 261710

Cystadlaethau Gwaith Cartref

1. Trefniant blodau yn dylunio unrhyw bennill i blant.

(Ar sylfaen 20"x20"). Dowch a'ch trefniant i'r Morlan erbyn 3 o'r gloch ar Fai 1af. Gellir eu casglu ar ddiwedd yr eisteddfod neu ar Fai 2ail rhwng 10 a 3. Gwobr: £50

2. Erthygl Papur Bro gan Ddysgwyr, unrhyw destun.

(Y dysgwyr i nodi eu lefel wrth ymgaisio).

Gwobr: £50 i'w rannu

3. Erthygl Papur Bro, unrhyw destun

Gwobr: £50 i'w rannu

4. Limrig i gynnwys y llinell:

"Peth diflas yw tyfu yn hen" neu

"Roedd hon yn Eisteddfod a hanner"

Gwobr: 1af: £10

5. Ffotograff – Thema: Aberystwyth

3 Categori: a) oed cynradd, b) uwchradd, c) oedolion). Gwobr o £10 i enillydd pob un o'r tri chategori.

6. Ffoto a chapsiwn Cymraeg – Thema: Cymreictod Cystadleuaeth i ddysgwyr (oedolion).

Gwobr £10

7. Darn o gelf gan unigolyn mewn ysgol gynradd – Thema:

Dathlu. Dim mwy mewn maint na 1m x1m x1m.

Gwobr o £50 i'w rannu

8. Darn o gelf gan unigolion mewn ysgol uwchradd.

Thema: Calan Mai. Dim mwy mewn maint na 1m x1m x 1m.

Gwobr o £50 i'w rannu

9. Darn o lenyddiaeth i oed cynradd: Teitl 'Aberystwyth'

(Gall fod yn stori yn seiliedig mewn lleoliad yn y dre, yn ddarn o farddoniaeth, traethawd, deialog, ayb). Gwobr o £50 i'w rannu

10. Darn o lenyddiaeth i oed uwchradd:

Teitl 'Aberystwyth'

(Gall fod yn stori yn seiliedig mewn lleoliad yn y dre, yn ddarn o farddoniaeth, traethawd, deialog, ayb). Gwobr o £50 i'w rannu

11. Darn o lenyddiaeth i rai dros 65

Hanes rhywbeth newydd yn cyrraedd y cartref e.e. teledu, tŷ bach, fridj, cyfrifiadur, meicrodon... Gwobr o £50 i'w rannu

12. Darn o gelf gan oedolyn. Thema: Agored

Gwobr o £50 i'w rannu

13. Darn o lenyddiaeth (rhyddiaith neu farddoniaeth)

Gan fyfyrwr coleg neu brifysgol. Hyd at 3,000 gair.

Thema: Lleisiau. Gwobr o £50 i'w rannu

Ysgrifenyddion:

Mrs Rhian Phillips a Mrs Velvor Raw-Rees, Ysgol Plasrugg, Aberystwyth SY23 1HL;

Rhif ffôn symudol Velvor: 07968979333

(gellir cysylltu â'r Ysgrifenyddion ac anfon gwaith cartref un ai drwy'r post i Ysgol Plasrugg, neu ar yr e-bost aberystwyth@steddfota.org

erbyn 23 Ebrill, 2013

Fel rhan o'r Eisteddfod cynhelir


Cystadleuaeth RocAber

Nos Wener, Ebrill 26,

am 7.30 o'r gloch

ying Nghanolfan Arad Goch

mae'r gystadleuaeth hon yn agored i grwpiau o Geredigion gyfan



Rhestr Testunau ar gael o www.steddfota.org

Teyrnged

Dwynwen Jones (1917 – 2012)

Merch o Fachynlleth oedd y diweddar Mrs Dwynwen Jones, Brooklyn, Tal-y-bont, yr ieuengaf o bump o blant i David a Margaret Evans. Roedd ei thad yn sarsiant gyda'r heddlu yn y dref.

Wedi dilyn cwrs dysgu yn y Coleg Normal, Bangor, bu'n dysgu mewn ysgolion yn ardaloedd Llundain, Machynlleth, Aberystwyth a Thal-y-bont. Priododd Douglas Jones, gŵr ifanc o Dal-y-bont, ym mis Awst 1947 ac fe ymgartrefodd y ddau yn Nhal-y-bont ym 1950.

Magodd y ddau, ddau o blant, Peter a Margaret ond cawsant brofedigaeth lem ym marwolaeth eu mab. Roedd Dwynwen yn bianydd penigamp a defnyddiodd y ddawn honno i wasanaethu wrth yr organ yn Eglwys Dewi Sant am dros 30 o flynyddoedd.

Ergyd drom iddi yn Ionawr 2011 oedd colli ei gwr, Douglas ond daeth ei hwyron Jenny, Gareth ac Andy â llawer o gysur a llawenydd iddi ynghyd â'i merch Margaret a'i mab yng nghyfraith John.

Byddai gwên gynnes barod ar ei hwyneb wrth groesawu unrhyw un a alwai heibio i'w gweld yn ei chartref yn Nhal-y-bont ac ymhellach ymlaen yng Nghartref Tregerddan ble bu farw'n dawel ddiwedd fis Tachwedd.

Lansio llyfr

Lansiwyd llyfr o'r enw *Upland Kenya – Wild Flowers and Ferns* yn Amgueddfa Richard Leakey, Nairobi, Kenya ar 4 Chwefror. Awdur y llyfr yw'r Dr Andrew D. Q. Agnew, Tŷ Garth, Ffwrnais.



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk

Gwefan: <http://cis.ceredigion.gov.uk>

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA

Cawod Defaid Symudol ARTHUR MORGAN

Dosbarthwn a gwaredwn 'dip defaid'



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Y Gair Olaf



'Da ni mewn cyfnod ble mae'r ysfaf am ddatblygiadau technegol yn ddi-baid a pharhaus - ond weithiau dwi'n teimlo mai mater o un cam mlaen a dau nôl ydi hi.

Pam fod angen rhywbeth 'newydd' trwy'r amser? Ydi neges destun yn well na galwad ffôn? Ydi cymdeithasu dros y we yn well na galw i weld ffrind am glonc?

Mae Mr. Gates yn dipyn o ddyngarwr - ond mae'n gallu fforddio i fod felly gan iddo'n swyno i feddwl fod yn rhaid cael y fersiwn nesa o 'Microsoft Office'! Mwy i neud da marchnata na gwelliant mae'n debyg! Fel dwi'n dechre cyfarwyddo gydag un fersiwn o 'Word' mae'r nesa'n dod allan!

Pan fyddwn yn teithio ar drên ager roedd 'na ryweth braf o glywed 'clic cloc' y drws yn cau wrth ymweld â'r tŷ bach. Bodlonrwydd o'r sicrwydd fod y drws ar glo. Yn rhy aml ar drenau mwy modern, mae'r toiledau allan o ddefnydd, nid am fod 'na dim byd mecanyddol o'i le ar y tŷ bach ei hun, ond gan fod y system drydan sy'n rheoli'r drysau yn ddiffygol! Anghyfleus yn wir - yn enwedig os mai chi ydi'r truan sy'n defnyddio'r cyfleuster ar y pryd! Mae'n dipyn o sioc i'r defnyddiwr a gweddill y teithwyr pan mae drws y 'tardis' yn agor a chau yn wallgo', gyda'r unigolyn, yn ei holl ogoniant, ar y 'sedd fawr'.

Dwi ddim yn erbyn newid na datblygiad yn gyffredinol. Yn wir mae 'na lawer i'w ddathlu ac ymfalchïo ynddo o ystyried yr hyn mae dyn wedi ei gyflawni. Ond, mae angen gofyn weithie ai hwyluso neu gymhlethu mae ambell i ddatblygiad?

Gerwyn Jones



Glanyrafon

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774



**Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

**Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim**

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

CHWARAEON



Barry Southgate yn cael ei guro i'r bêl gan gôl-geidwad y coleg wrth i Dal-y-bont ymosod.

Brwydrau ar y Brig

Yn ystod yr wythnosau diwethaf gwelwyd tîm pêl-droed Tal-y-bont yn llithro o uchelfannau ail adran Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r Cylch. Collwyd yn drwm yn erbyn y ceffylau blaen Trawsgoed ac mae'n debygol bellach mai'r clwb o ddyffryn Ystwyth fydd yn cipio'r bencampwriaeth ar ddiwedd y tymor.

Wedi i Dal-y-bont ennill oddi cartref yn Llan-non o ddwy gôl i un, daeth trydydd tîm y Brifysgol i Gae'r Olyn Galch ar bnawn Sadwrn 2 Mawrth ar gyfer gêm a fyddai'n siŵr o benderfynu tynged yr ail safle yn y cynghrair. Yn yr hanner cyntaf fe fethodd y ddau dîm gyfleoedd da, a gwan oedd yr ymdrechion o flaen y gôl. Yn yr ail hanner aeth Tal-y-bont ar y blaen pan wyrodd gic rydd Todd Penfold heibio gôl-geidwad y coleg. Gwaetha'r modd fe darodd y myfyrwyr yn ôl, gan sgorio ddwywaith o fewn pum munud - y naill o ergyd nerthol a'r llall o ganlyniad i flerwch yn yr amddiffyn. Fe bwysodd Tal-y-bont yn yr ugain munud olaf ond prin oedd y cyfleon. Canlyniad siomedig felly i fechgyn Tal-y-bont ac ergyd i'r gobeithion am ddychafiad i'r adran gyntaf.



David Griffiths yn penio'r bêl.



Cystadleuaeth Rygbi'r Urdd

Ar ddydd Mawrth, 27 Chwefror, fe fu tîm rygbi'r ysgol yn cystadlu mewn pencampwriaeth a drefnwyd gan yr Urdd yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. Daeth 9 o dimau ynghyd i frwydro am y fraint o fod yn bencampwyr Ceredigion.

Cafwyd y dechrau gorau posib gan i ni lwyddo i sgorio yn y munudau cyntaf yn erbyn Ysgol Bro Pedr, ond roedd y tîm o Lanbedr Pont Steffan yn gryfach na ni yn yr ail hanner a cholli fu'r hanes. Ond yn dilyn y golled honno, fe wnaeth y bechgyn chwarae rygbi da iawn i guro Ysgol Bro Siôn Cwilt ac Ysgol Plasrug i gyrraedd y rownd gynderfynol.

Roedd pawb mor gyffrous erbyn i ni gael gwybod mai ein gwrthwynebwyr fyddai Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Roedd cyd-chwarae tîm Tal-y-bont o'r safon uchaf ac yn erbyn disgwyliadau nifer o bobl, trechwyd bois y dre'n gyfforddus o 4 cais i 2.

Felly, roedd un gêm arall ar ôl - y rownd derfynol a hynny yn erbyn Ysgol Bro Pedr unwaith eto. Er i ni chwarae'n ddewr am gyfnod hir, colli oedd ein hanes yn y diwedd ac roedd pawb wedi ymladd yn llwyr erbyn hynny.

Diolch o galon i Penri, Gwydion, Bedwyr, Tomos, Dylan, Ieuan, Lewis, Jac, Dion a Rhys am eu perfformiadau clodwiw gan obeithio fod pawb wedi mwynhau'r diwrnod arbennig yma.

Pwy a ŵyr na fydd rhai o'r bechgyn yn parhau i chwarae rygbi yn y dyfodol ac yn serennu yn y gamp.



Tîm Tal-y-bont 1949

Roedd erthygl Eric Williams, Rhydfach gynt, ar ailgychwyn clwb pêl-droed Tal-y-bont wedi'r Rhyfel wedi ennyn cryn ddiddordeb. Erbyn hyn cawsom enwau'r chwaraewyr yn y llun a gyhoeddwyd yn rhifyn Ionawr o'r papur. Dyma nhw:

Cefn: John Smith, John Morris, Dafydd Rhagfyr Jones, Haydn Ebenezer, Eilir Edwards, Dafydd Rowlands, Bob Rowlands, Tegwyn Owen, Jimmy Morrell

Blaen: Frank Edwards, Kenneth Jones, Gordon Edwards, Gomer Francis, Alun Evans, Ronald James, John Jenkins

